# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 21 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

*Atebwyd y cwestiynau gan y Trefnydd ar ran y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg.*

### Dosbarthu Arian Loteri

**C8 Geraint Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau y ceir cydraddoldeb yn y modd y dosberthir arian y loteri ledled Cymru? (WAQ12059)

**Y Trefnydd (Andrew Davies)**: Mater i bum dosbarthwr y loteri yw dosbarthu arian y loteri yng Nghymru. Mae cyfarwyddiadau polisi a roddir i'r dosbarthwyr yn nodi'n glir y gofynion ar gyfer sicrhau y rhennir arian yn gyfartal rhwng ardaloedd daearyddol a hefyd ar draws gwahanol rannau cymdeithas.

Mae'r holl gyrff dosbarthu yng Nghymru yn cyfarfod yn rheolaidd ac yr ydym wedi gofyn iddynt ystyried, ar y cyd, y rhesymau dros y galw isel am arian y loteri mewn rhai ardaloedd. Gyda'i gilydd, ac yn fwyfwy ar y cyd â'r Cynulliad, maent yn ystyried y ffyrdd gorau o fynd i'r afael â'r materion hyn. Un maes y mae angen rhoi sylw neilltuol iddo yw 'datblygu potensial' o fewn cymunedau.

### Annog Cymryd Rhan yn y Celfyddydau yng Nghymru

**C9 John Griffiths:** Pa gamau a gymerir i annog rhan helaeth o'r boblogaeth i gymryd rhan yn y celfyddydau yng Nghymru a'u gwerthfawrogi? (WAQ12092) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella'r Amgylchedd Ddiwylliannol

**C10 Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella amgylchedd ddiwylliannol Cymru? (WAQ12036)

**Andrew Davies:** Mae'r camau hyn yn dod o dan ddau bennawd eang:

Yr ydym wedi cynyddu'r cyllidebau i'r cyrff cyhoeddus diwylliannol a noddir gan y Cynulliad yn sylweddol o 1 Ebrill ymlaen. Dylai hyn eu galluogi i chwarae rhan egniol yn y gwaith o gyflwyno ein polisïau ar gyfer cefnogi gweithgareddau diwylliannol a'r celfyddydau.

Hefyd dylai sefydlu portffolio pwrpasol, a phwyllgor, ar gyfer Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg godi proffil y sectorau hyn yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

### Pwysigrwydd Darlledu a Chyfathrebu

**C11 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar bwysigrwydd darlledu a chyfathrebu ym mywyd diwylliannol Cymru? (WAQ12060)

**Andrew Davies:** Mae'r diwydiannau darlledu a chyfathrebu yn bwysig i ni, am resymau economaidd a diwylliannol. Mae'r darlledwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn gwneud cyfraniad pwysig i'n diwylliant ac i'r iaith Gymraeg. Cyflogir oddeutu 8,000 o bobl yn y diwydiannau cyfathrebu yng Nghymru. Caerdydd yw un o'r canolfannau mwyaf o ran arbenigedd darlledu yn y DU y tu allan i Lundain. I gydnabod hyn, cynhaliwyd cynhadledd Interactive City 2001 yng ngwesty'r Hilton, Caerdydd ar 3 Mehefin, a minnau'n traddodi'r brif araith. Lleolir llawer o waith cynhyrchu blychau penset digidol a setiau teledu digidol y DU yng Nghymru.

**Mewnbwn i Ddeddfwriaeth ar Ddarlledu a Chyfathrebu**

**C12 Cynog Dafis:** Pa fewnbwn pellach fydd gan y Cynulliad Cenedlaethol i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddarlledu a chyfathrebu? (WAQ12067) [W]

**Andrew Davies:** Yn Araith y Frenhines ddoe, nodwyd y bydd Mesur drafft yn cael ei gyhoeddi i greu un rheolydd ar gyfer y cyfryngau a'r diwydiant telegyfathrebu, ac i ddiwygio'r rheoliadau darlledu a thelegyfathrebu. Hyd yma ni fu unrhyw ymgynghori â'r Cynulliad, ond yr ydym yn ceisio cael cyfrannu yn ystod y cyfnod cynnar. Yn yr uwchgynhadledd ar gyfathrebu a drefnwyd gan Fforwm Cyfryngau Cymru yng Nghaerdydd ar 12 Mehefin, traddodwyd yr araith agoriadol gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg. Yr oedd yr uwchgynhadledd yn gyfle amlwg i atgyfnerthu'r negeseuon yn ymateb y Cynulliad i'r Papur Gwyn eleni.

**Hybu Cyfraniad i'r Celfyddydau y rhai sydd o dan 18 oed**

**C13 Peter Rogers:** Pa gamau a gymerwyd i hybu cyfraniad pobl ifanc o dan 18 oed yn y celfyddydau? (WAQ12033)

**Andrew Davies:** Sianelir nawdd y Cynulliad Cenedlaethol i'r celfyddydau yng Nghymru trwy Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n gweithredu o fewn y cylch gorchwyl a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyhoeddwyd adroddiad gan Gyngor y Celfyddydau ar y celfyddydau a phobl ifanc ym mis Chwefror 1999. Mae'r cyngor hefyd yn brif bartner yn nhasglu'r celfyddydau a phobl ifanc. Dyma faes polisi a datblygu pwysig i gyngor y celfyddydau. Mae strategaeth y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ar gyfer diwylliant yng Nghymru, a gyflwynwyd yn y Pwyllgor Diwylliant ddoe, yn cynnwys polisi a gweithredu clir o ran pobl ifanc, y celfyddydau ac addysg.

**Annog y Rhan Helaeth o'r Boblogaeth i Gymryd Rhan mewn Chwaraeon**

**C14 John Griffiths:** Pa bolisi a ddilynnir i annog rhan helaeth o'r boblogaeth i gymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru? (WAQ12093) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hyrwyddo Cymru fel Cymdeithas Ddwyieithog**

**C15 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo Cymru fel cymdeithas ddwyieithog? (WAQ12030) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

**C16 Dafydd Wigley:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol Cymru'n gallu elwa ar brosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol Ewrop? (OAQ12066) [W]

**Andrew Davies:** Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, menter gydweithredol a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig, yn rhoi cyngor i sefydliadau ar geisio am arian o gronfeydd strwythurol Ewrop.

Mae Cymru'n Creu wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut y gall y diwydiannau diwylliannol elwa ar arian strwythurol Ewrop.

### Rasio Colomennod

**C17 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ystyried gweithredu er mwyn caniatáu i Gymru arwain y ffordd tuag at gydnabod rasio colomennod fel math o chwaraeon? (OAQ12090)

**Andrew Davies:** Na. Mater i Gyngor Chwaraeon Cymru yw hwn, ynghyd â chynghorau chwaraeon y gwledydd cartref eraill.

Sianelir holl arian y Cynulliad ar gyfer chwaraeon yng Nghymru trwy Gyngor Chwaraeon Cymru. Er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu'n effeithiol ac effeithlon, mae pedwar cyngor chwaraeon y gwledydd cartref i gyd, trwy weithio gyda'i gilydd, wedi mabwysiadu system o roi 'cydnabyddiaeth' ffurfiol i weithgareddau a sefydliadau. Nid yw'r cynghorau'n deddfu ar ba weithgareddau y dylid eu hystyried yn chwaraeon. Yn hytrach, nodant y gweithgareddau y maent am eu datblygu ac a ddylai fod yn gymwys i gael cymorth ganddynt. Y maent hefyd wedi penderfynu na fydd unrhyw fath o chwaraeon yn derbyn cydnabyddiaeth heb i'r pedwar cyngor gytuno'n unfrydol y dylai fod yn weithgaredd cydnabyddedig ar gyfer cymorth grant.

Y prif feini prawf a ddefnyddir gan y cynghorau at ddiben cydnabyddiaeth yw 'ymdrech gorfforol' a 'sgiliau' . Gyda rasio colomennod, un o'r prif resymau am benderfyniad y cyngor ynghylch a yw rasio colomennod yn gymwys i gael cefnogaeth yw diffyg 'ymdrech gorfforol' y bobl sy'n cymryd rhan.

Gwerthfawrogwn yr anhawster y mae'r diffyg cydnabyddiaeth yn ei greu i bawb sy'n ymwneud â rasio colomennod o ran sicrhau nawdd gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod y teimladau cryf y mae hyn wedi'i greu. Ond, er mwyn sicrhau cysondeb, yr ydym yn credu y dylai'r cyfrifoldeb dros benderfynu pa weithgareddau fydd yn gymwys i gael cefnogaeth ganddynt aros gyda'r cynghorau chwaraeon. Felly, hyd oni cheir cydnabyddiaeth unfrydol gan holl gynghorau chwaraeon y gwledydd cartref, ni fydd rasio colomennod yn gymwys i gael cefnogaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

### Sicrhau bod Diwylliant ar gael i Bawb

**C18 Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud er mwyn sicrhau bod diwylliant ar gael i bawb yng Nghymru? (OAQ12035)

**Andrew Davies:** Mae ein trysorau cenedlaethol yn awr ar gael yn rhad ac am ddim i bawb yng Nghymru wedi inni gael gwared ar y ffioedd mynediad i Amgueddfeydd Cenedlaethol ac Orielau Cymru. Mae hyn hefyd wedi arwain at y nifer uchaf o ymwelwyr erioed i'w safleoedd. Mae strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar amrywiaeth diwylliannol a lansiwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ym mis Ebrill 2001, yn hyrwyddo cydraddoldeb mynediad i ystod llawn o ddigwyddiadau celfyddydol i bobl o bob oed, gallu, diwylliant a chymuned.

Mae'r Cyngor Celfyddydau wrthi hefyd yn hyrwyddo'n egnïol a noddi celfyddydau yn y gymuned, a'r celfyddydau i bobl ifanc yn nhasglu'r celfyddydau i bobl ifanc.

### Adfer Safle Chwaraeon mewn Ysgolion

**C19 David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd er mwyn adfer safle chwaraeon mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ12075)

**Andrew Davies:** Mae adroddiad y tasglu addysg gorfforol a chwaraeon ysgol yn rhoi gweledigaeth gyffredin i'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â gwella safonau a'r cyfleusterau ar gyfer addysg gorfforol a gweithgareddau chwaraeon ysgol. Mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes at ei gilydd yn

fodlon gydag argymhellion yr adroddiad ac wedi darparu £500,000 eleni er mwyn bwrw ymlaen â nifer o'r argymhellion—gan gynnwys penodi cydlynydd addysg gorfforol a chwaraeon ysgol cenedlaethol.

Rhoddir sylw neilltuol i sicrhau bod unrhyw waith datblygu yn adeiladu ar yr arfer da a hyrwyddir gan Gyngor Chwaraeon Cymru drwy 'Gampau'r Ddraig' a 'Chlwb Cymru' ac yn cydategu'r £48.75 miliwn a fydd ar gael trwy'r gronfa cyfleoedd newydd i hyrwyddo Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion yng Nghymru.

### Cefnogaeth i Gelfyddydau yn y Gorllewin

**C20 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'r celfyddydau yn y gorllewin? (OAQ12029) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyngor i Gyhoeddwyr Llyfrau Cymraeg (Marchnata Cynnyrch)

**C21 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ystyried y posibilrwydd o estyn cyngor i gyhoeddwyr llyfrau Cymraeg i farchnata eu cynnyrch mewn archfarchnadoedd a mannau poblogaidd eraill? OAQ12063) [W]

**Andrew Davies:** Cyngor Llyfrau Cymru sydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a darparu cyngor ar farchnata i gyhoeddwyr yng Nghymru. Fe ofynnaf i gyfarwyddwr y cyngor llyfrau ysgrifennu atoch â manylion yr ymdrechion sydd yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i helpu i farchnata llyfrau mewn archfarchnadoedd a lleoliadau perthnasol eraill. Rhoddir copi o ateb y cyfarwyddwr yn y Llyfrgell.

### Cymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol

**C22 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda'r Gymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol? (OAQ12062) [W]

**Andrew Davies:** Fel y gwyddoch, mynychodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ginio blynyddol Cangen Cymru o Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol yn ddiweddar, lle cafodd gyfle i drafod a chymeradwyo'n gyhoeddus menter 'Caeau Owain Glyndŵr' y gymdeithas.

Mae'n bwysig bod cymunedau lleol ledled Cymru, a'r plant o fewn y cymunedau hynny yn arbennig, yn parhau i allu defnyddio cyfleusterau chwarae a lleoedd agored lleol. Bydd gwaith y gymdeithas a mentrau fel prosiect Caeau Owain Glyndŵr yn helpu i sicrhau a datblygu cyfleusterau chwarae a chwaraeon, yn arbennig i bobl ifanc heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Yr ydym yn gobeithio y bydd cymaint o awdurdodau lleol â phosibl yn cymeradwyo'r cynllun.

### Derbyniad Teledu yng Nghymru

**C23 Brian Gibbons:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau ar dderbyniad teledu yng Nghymru? (OAQ12025) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru

**C24 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gynnal astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o geisio am yr hawl i gynnal gemau'r Gymanwlad yng Nghymru? (OAQ12089)

**Andrew Davies:** Nid yw'n fwriad gan y Gweinidog gynnal astudiaeth am ddichonoldeb cynnal gemau'r Gymanwlad yng Nghymru.

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, bydd Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal ym Manceinion yn 2001. Mae'n annhebygol iawn y byddai'r gemau'n dychwelyd i unrhyw ran o'r DU am o leiaf bedair neu bum pencampwriaeth arall, hynny yw, am o leiaf 20 mlynedd.

Byddai rhaid i unrhyw gais am gynnal y gemau ddod o Gyngor Cymru Gemau'r Gymanwlad.

Nid oes gennym yng Nghymru yr ystod o gyfleusterau a fyddai'n addas i gynnal y digwyddiad hwn, ac felly byddai angen buddsoddiadau cyfalaf sylweddol. Yng Nghymru, byddai'n anodd cyfiawnhau buddsoddiad o'r fath mewn cyfleusterau ar gyfer digwyddiad unigol, gan y byddai'r costau refeniw hirdymor yn sylweddol.

### Sefydliadau Diwylliannol (Gorllewin De Cymru)

**C25 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am unrhyw sefydliadau diwylliannol yng Ngorllewin De Cymru y mae wedi ymweld â hwy yn rhinwedd ei swydd ers cael ei phenodi? (OAQ12072)

**Andrew Davies:** Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg wedi ymweld dwywaith ag etholaeth yr Aelod yng Ngorllewin De Cymru ers cael ei phenodi.

31 Ionawr 2001: ymweliad ag Abertawe, Theatr y Grand a Theatr Taliesin ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, Fforwm Celfyddydau Abertawe a'r Amgueddfa Diwydiant a Môr Genedlaethol.

9 Mai 2001: ymweliad ag Oriel Gelf Glyn Vivian, Abertawe, a Llyfrgell a Chanolfan Addysg Banwen.

### Mentrau Diwylliannol Newydd (Gorllewin De Cymru)

**C26 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw fentrau diwylliannol newydd yng Ngorllewin De Cymru? (OAQ12073)

**Andrew Davies:** Ceir cryn weithgarwch ynglŷn â mentrau diwylliannol newydd yng Ngorllewin De Cymru, er enghraifft, mae gwaith wedi dechrau ar y pwll nofio cenedlaethol newydd yn Abertawe a ddenodd arian Sportlot drwy Gyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn weithgar iawn yn dilyn trywydd ceisiadau am arian loteri ar gyfer 'Celfyddyd i Bawb' oddi wrth sefydliadau celfyddydol yn yr ardal hon. Mae'r prosiectau diweddar wedi cynnwys:

Cysylltiadau Celtaidd – prosiect tair blynedd i godi proffil y gwreiddiau a'r diwylliant Celtaidd yng ngorllewin Cymru, trwy gerddoriaeth, y celfyddydau gweledol a llenyddiaeth.
Dyfarnwyd grant iddynt o £54,750.00.

Cysylltiadau Byd-eang – cyfres chwe diwrnod o weithdai celfyddyd Wythnos Un Byd ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion yn Neuadd y Dref, Penfro. Dyfarnwyd grant o £3,000 iddynt.

### Strategaeth ar gyfer y Celfyddydau Gweledol

**C27 Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu llunio strategaeth ar gyfer y celfyddydau gweledol yng Nghymru? (OAQ12088)

**Andrew Davies:** Mae'r strategaeth ddiwylliannol a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg i'r Pwyllgor Diwylliant ddoe yn darparu fframwaith ar gyfer y dyfodol ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer cynlluniau corfforaethol y cyrff cyhoeddus diwylliannol a noddir gan y

Cynulliad, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r celfyddydau gweledol yn rhan hanfodol o'r strategaeth honno i ddatblygu rhagoriaeth, hygyrchedd a hyrwyddo Cymru a delwedd Cymru dramor.

### Mesur Darlledu a Chyfathrebu

**C28 Janer Ryder:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw wybodaeth ar gyhoeddiad y Mesur darlledu a chyfathrebu? (OAQ12057)

**Andrew Davies:** Yn ei haraith ddoe, datganodd y Frenhines y byddai ei Llywodraeth newydd yn cyhoeddi Mesur drafft gogyfer â sefydlu un rheolydd ar gyfer y diwydiannau cyfathrebu a'r cyfryngau a diwygio'r rheoliadau darlledu a thelathrebu.

Nid oes gennyf wybodaeth eto ynghylch pryd y bydd y mesur yn cael ei gyhoeddi, ond deallaf mai drafft ar gyfer ymgynghori fydd hwn, a bydd cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol roi sylwadau.

### Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen

**C29 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer rhoi cymorth i Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen? (OAQ12026)

**Andrew Davies:** Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a minnau wrth ein bodd fod pwyllgor Eisteddfod Llangollen wedi penderfynu parhau i gynnal yr Eisteddfod Gydwladol eleni.

Yr ydym hefyd yn sylweddoli bod yn rhaid i Eisteddfod Llangollen edrych yn fanwl ar ei threfniadau ariannol er mwyn cael sicrwydd tymor hir. O'r herwydd, yr wyf yn falch bod Cyngor Sir Dinbych, Bwrdd Croeso Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cydweithio â phwyllgor yr Eisteddfod i ddatblygu strategaeth 10 mlynedd i ddiogelu dyfodol yr ŵyl.

Yr wyf yn sicr mai cydweithredu o'r math hwn fydd fwyaf tebygol o arwain at ateb tymor hir i'r heriau sy'n wynebu'r eisteddfod.

Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn cyfarfod â chynrychiolwyr Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen ar Fehefin 28 i drafod eu pryderon ariannol.

### Astudiaethau Dichonoldeb (Cyngor Celfyddydau Cymru)

**C30 Richard Edwards:** Faint o astudiaethau dichonoldeb sydd wedi'u hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (OAQ12021) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Creu Swydd Swyddog Datblygu Pysgodfeydd

**C7 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd ar gyfer creu swydd swyddog datblygu pysgodfeydd yng Nghymru? (OAQ12052)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones):** Nid oes unrhyw gynlluniau i greu swydd o'r fath.

### Oedi cyn Talu Iawndal i Ffermwyr

**C8 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr oedi cyn talu iawndal i ffermwyr y cafodd eu hanifeiliaid eu difa yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ12045) [R]

**Carwyn Jones:** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am brosesu'r taliadau iawndal i ffermwyr. Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r pryder a'r cyni y mae'r gymuned amaethyddol yn ei ddioddef yn sgil yr oedi gyda'r taliadau ac yr wyf wedi sicrhau bod swyddogion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Y rheswm dros yr holl oedi yw'r nifer enfawr o geisiadau y bu'n rhaid iddynt ddelio â hwy. Ond mae £742 miliwn wedi cael eu talu i ffermwyr ledled Prydain Fawr o gyfanswm o £760 miliwn a hawliwyd.

Y sefyllfa ar Fehefin 11 yw bod oddeutu 500 cais am iawndal heb eu talu, pob un ohonynt yn amrwyio yn ôl yr angen datrys gyda'r rhai sy'n hawlio.

## Ychwanegu Gwerth i Gynnyrch Fferm o Gymru

**C9 John Griffiths:** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud ynglŷn ag ychwanegu gwerth yng Nghymru i gynnyrch fferm o Gymru? (OAQ12101) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Adfywio Ffermio ym Mynwy

**C10 David Davies:** Pa fesurau newydd a gynigir gan y Gweinidog sydd yn anelu at adfywio ffermio ym Mynwy? (OAQ12084)

**Carwyn Jones:** Yn ychwanegol at ddarparu cefnogaeth ar gyfer Tir Mynydd, Tir Gofal, y cynllun ffermio organig a mesurau coedwigaeth, bydd y cynllun datblygu gwledig i Gymru yn cyflwyno nifer o fesurau newydd a fydd o gymorth i'r diwydiant ffermio ym Mynwy. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl wasanaethau sydd ar gael o dan Cyswllt Ffermio; grantiau cyfalaf ar gyfer gwella ffermydd ac arallgyfeirio ar ffermydd; cynlluniau coedwigaeth ehangach gan gynnwys biomas; prosesu a marchnata cynnyrch amaethyddol; a nifer o weithgareddau dan erthygl 33 Rheoliad Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd, sydd wedi'u targedu at ddatblygu'r gymuned wledig ehangach.

## Sefydlu Cynllun Porthiant ar gyfer Argyfyngau Amaethyddol

**C11 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch sefydlu cynllun porthiant ar gyfer argyfyngau amaethyddol yn y dyfodol? (OAQ12054). ***Tynnwyd yn ôl.***

## Sicrhau Statws Nod Daearyddol Gwarchodedig i Gynnyrch o Gymru

**C12 Alun Cairns:** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi ei wneud mewn perthynas â sicrhau statws nod daearyddol gwarchodedig i gynnyrch o Gymru? (OAQ12082)

**Carwyn Jones:** Cyflwynwyd ceisiadau am nod daearyddol gwarchodedig ar gyfer cig oen Cymru a chig eidion Cymru gan Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rhoddwyd hysbysiadau yn rhoi manylion nodau daearyddol gwarchodedig cig oen ac eidion Cymru yng nghylchgrawn Swyddogol Cymunedau Ewrop ym mis Ionawr 2000 gyda'r hawl i wrthwynebu hyd at 25 Gorffennaf 2000. Derbyniwyd un gwrthwynebiad o Gymru.

Yr ydym wedi ystyried y gwrthwynebiad hwnnw a hefyd wedi gofyn am farn y diwydiant yng Nghymru yn gyffredinol ar y ddau nod daearyddol gwarchodedig. Yn awr, mae Llywodraeth y DU, ar ein rhan, wedi gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gadarnhau'r ddau gais.

## Achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn y Dyfodol

**C13 Eleanor Burnham:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o glwy'r traed a'r genau yn y dyfodol? (OAQ12103)

**Carwyn Jones:** Mae canolfan rheoli clwy’r traed a’r genau yng Nghymru yn parhau i allu ymateb yn gyflym i unrhyw achosion newydd a gyfyd.

### Helpu Ffermydd Bach yng Nghymru

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi eu cymryd i helpu ffermydd bach yng Nghymru? (OAQ12098)

**Carwyn Jones:** Bydd y grŵp Dyfodol Ffermio yn llunio cynllun tymor hir i amaethyddiaeth yng Nghymru ynghyd â rhaglen weithredu gefnogol. Mae’n hysbys gan bawb fod cadw’r fferm deuluol fechan yn bwysig i mi ar gyfer parhad y diwydiant yn y dyfodol.

### Annog Twf Marchnadoedd Fferm

**C15 David Melding:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i annog twf marchnadoedd fferm yng Nghymru? (OAQ12056)

**Carwyn Jones:** Mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud yn barod gan amrywiaeth o sefydliadau i ddatblygu marchnadoedd fferm ar lefel leol. Mae Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru yn ystyried y gwaith hwn ar hyn o bryd gyda’r bwriad o greu strategaeth gydlynol ar gyfer y dyfodol, wedi’i chysylltu â marchnata priodol. Mae’n rhaid i’r WDA ystyried nifer o ffactorau wrth edrych ar gefnogaeth ariannol i farchnadoedd fferm ond, yn gyffredinol, bydd y WDA yn ystyried ceisiadau am gymorth gyda’r canlynol:

- costau cychwyn (hyd at 40 y cant ac yn gysylltiedig â maint tebygol y fenter).
- costau cysylltiedig â datblygiad y farchnad o ran nifer y cynhyrchwyr a fydd yn gysylltiedig.
- costau cysylltiedig â hyrwyddo’r farchnad ymysg y cyhoedd.

### Ymdrin â Gafael Haearnaidd yr Archfarchnadoedd ar Ffermwyr

**C16 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gyda’r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ynglŷn â strategaeth ar gyfer ymdrin â gafael haearnaidd yr archfarchnadoedd ar ffermwyr o safbwynt pris eu cynnyrch? (OAQ12106)

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi cael trafodaethau uniongyrchol gyda Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, yn sgîl honiadau fod archfarchnadoedd yn gwneud gormod o elw, cyfeiriwyd y mater at y Swyddfa Masnachu Teg gan y Llywodraeth. Cynhaliodd ymchwiliad wyth mis i broffidioldeb y prif archfarchnadoedd yn y sector bwyd. Cyhoeddwyd canlyniad y casgliadau cychwynnol ar 8 Ebrill 1999 a phenderfynodd John Bridgeman, Rheolwr Cyffredinol Masnachu Teg, gyfeirio’r sector gwerthu bwyd, sy’n werth £60 biliwn y flwyddyn, i’r Comisiwn Cystadleuaeth ar gyfer ymchwiliad monopoli llawn. Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Cystadleuaeth i’r sector bwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant ar 10 Hydref 2000.

Yr oeddwn yn croesawu argymhellion y comisiwn y dylid datblygu cod ymddygiad ymrwymol ar gyfer y diwydiant, gan adeiladu ar god gwirfoddol y Sefydliad Dosbarthu Bwyd i amddiffyn buddiannau’r cynhyrchwyr a gwella’r berthynas yn y gadwyn gyflenwi bwyd.

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi ceisio sicrhau bod cynhyrchwyr yn gallu cyfrannu i’r gwaith o ddrafftio’r cod gan y Swyddfa Masnachu Teg. Mae’r cod drafft wedi’i ddosbarthu er mwyn i bobl allu mynegi eu barn a disgwylir i’r fersiwn terfynol gael ei gyhoeddi’n fuan.

### Annog Diwydiant Gwin Cymru

**C17 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae’n eu cymryd i annog diwydiant gwin Cymru? (OAQ12050)

**Carwyn Jones:** Mae llai na 40 erw o dir wedi'u plannu gyda gwinwydd yng Nghymru, a dim ond pedair o'r 20 gwinllan gofrestredig yng Nghymru sy'n gweithredu'n fasnachol.

Mae Cyfarwyddiaeth Bwyd y WDA yn helpu gyda'r ymdrechion i ailsefydlu'r grŵp gwin arbennig o Gymru. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i sefydlu gwindy cydweithredol. Mae'r WDA hefyd yn barod i gynnig unrhyw gymorth y gallant.

Gall y WDA a Chyswllt Ffermio roi cyngor ar grantiau a allai fod ar gael o dan gynlluniau datblygu gwledig wedi'u hanelu at brosesu a marchnata a chynhyrchwyr bychain.

### Nifer y Ffermwyr yng Nghymru sydd dan Gyfyngiadau Ffurflen D

**C18 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ffermwyr yng Nghymru sydd dan gyfyngiadau Ffurflen D ar hyn o bryd? (OAQ12046) [R]

**Carwyn Jones:** Wedi i'r statws ardal heintus gael ei dynnu oddi ar ardal Sgiwen, Abercynon a rhan o Raglan ar 20 Mehefin, mae 100 o gyfyngiadau Ffurflen D wedi cael eu tynnu oddi ar ffermydd a effeithiwyd. Ar hyn o bryd, mae 2,274 fferm yng Nghymru dan gyfyngiadau Ffurflen D.

### Cynorthwyo Marchnadoedd Da Byw i Ailagor

**C19 Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynorthwyo marchnadoedd da byw i ailagor yn dilyn yr achosion o glwy'r traed a'r genau? (OAQ12048)

**Carwyn Jones:** Nid bwriad y cyfyngiadau presennol ar symud da byw sydd mewn perygl o gael y clefyd yw caniatáu masnachu traddodiadol, ac mae'r marchnadoedd da byw ar gau.

Yr wyf yn ystyried yr opsiynau gogyfer â dychwelyd i fasnachu o dan reolaeth ond a fydd yn cadw cydbwysedd rhwng caniatáu symud anifeiliaid yn fasnachol a gofynion rheoli'r afiechyd.

### Annog Entrepreneuriaeth yng Nghefn Gwlad Cymru

**C20 Richard Edwards:** Sut y mae'r Gweinidog yn annog entrepreneuriaeth yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ12051) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Ymdrin â'r Achosion o Glwy'r Traed a'r Genau

**C21 David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o'r modd yr ymdriniwyd â'r achosion o glwy'r traed a'r genau? (OAQ12085)

**Carwyn Jones:** Mae swyddogion Adran Amaethyddiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried y materion ac maent yn ymwneud ag ymarfer tebyg ar draws y DU.

### Gweithredu'r Strategaeth Hawl i Grwydro

**C22 Brian Gibbons:** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at roi'r strategaeth hawl i grwydro ar waith yng Nghymru yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ12087) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Sicrhau Pris Tecach am Laeth

**C23 Nick Bourne:** Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i sicrhau bod ffermwyr llaeth yng Nghymru yn derbyn pris tecach am eu llaeth? (OAQ12044)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad a'r WDA yn cymryd camau i weithredu elfennau llaeth strategaeth fwyd-amaeth Cymru, drwy ddatblygu'r cynllun gweithredu llaeth, a thrwy ddyfarnu grantiau i brosiectau prosesu llaeth addas. Prif bwyntiau'r cynllun gweithredu llaeth yw:

- gwella'r gwaith o farchnata'r sector
- sicrhau'r perfformiad gorau posib gan gynhyrchwyr a phroseswyr llaeth
- gwella sylfaen wybodaeth y diwydiant

Mae grantiau prosesu a marchnata ar gael i helpu ffermwyr a phroseswyr llaeth Cymru wella eu gallu i fod yn gystadleuol, i brosesu mwy o gynnyrch Cymreig ac i sicrhau cyfran uwch o farchnad y DU. Gall y cynllun datblygu marchnata helpu ffermwyr a phroseswyr llaeth i wella eu harbenigedd masnachol a marchnata.

**Annog Entrepreneuriaeth mewn Cymunedau Gwledig**

**C24 Christine Gwyther:** Pa fesurau sydd ar waith i annog entrepreneuriaeth mewn cymunedau gwledig? (OAQ12053) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynllun i Brynu Cwotâu Defaid a Buchod Sugno**

**C25 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch trafodaethau a gafodd gyda swyddogion MAFF ynglŷn â chyflwyno cynllun i brynu cwotâu defaid a buchod sugno gan ffermwyr sydd yn gadael y diwydiant, ac i orfodi lleihad yn niferoedd y da byw? (OAQ12102)

**Carwyn Jones:** Mae nifer o opsiynau yn cael eu hystyried, gan gynnwys bod yn hyblyg gyda chyfundrefnau'r cwotâu, sydd wedi'u hanelu at helpu'r diwydiant i ailsefydlu yn dilyn effaith clwy'r traed a'r genau. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud.

Efallai fod ffermwyr am adael, ond y mae angen inni hefyd greu hinsawdd a fydd yn fodd i bobl ifanc ymuno â diwydiant gyda dyfodol cynaliadwy. Yr wyf wedi rhoi cynigion gerbron y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ynghylch annog pobl ifanc i mewn i'r diwydiant.

**Cynllun Datblygu Gwledig Cymru**

**C26 Elin Jones:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda MAFF ynghylch cynllun datblygu gwledig Cymru? (OAQ12105)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wedi cael sawl trafodaeth gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar Reoliad Datblygu Gwledig y Gymuned Ewropeaidd. Fodd bynnag, mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw cynllun datblygu gwledig Cymru.

**Cynyddu'r Cynnyrch Bwyd a Diod sydd wedi'u Brandio o Gymru**

**C27 John Griffiths:** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gynyddu'n sylweddol y cynnyrch bwyd a diod sydd wedi'u brandio o Gymru? (OAQ12100) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ffermwyr sydd yn Aros am Iawndal**

**C28 Alun Cairns:** Faint o ffermwyr yng Nghymru y cafodd eu hanifeiliaid eu difa o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau sy'n dal i ddisgwyl am iawndal? (OAQ12083)

**Carwyn Jones:** Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy’n gyfrifol am brosesu taliadau iawndal i ffermwyr. Nid oes ganddo’r cyfleusterau i allu rhoi manylion am y rhai nad ydynt wedi derbyn iawndal fesul rhanbarth.

### Labelu Addas ar gyfer Cynnyrch a Addaswyd yn Enetig

**C29 Peter Black:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch labelu addas ar gyfer cynnyrch sydd â chynnwys a addaswyd yn enetig yng Nghymru? (OAQ12086)

**Carwyn Jones:** Ar 22 Ionawr 2001, bu i mi ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy, fynychu cyfarfod gyda chydweithwyr o Weithrediaeth yr Alban a chabinet y DU, i ystyried mater cnydau a addaswyd yn enetig. Mynegwyd â llais cryf farn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymryd safiad petrusgar tuag at ryddhau organebau a addaswyd yn enetig i’r amgylchedd ac y mae’n awyddus i ddatblygu cyfleoedd marchnata a fydd yn nodi bod cynnyrch amaethyddol yng Nghymru yn rhydd o unrhyw organebau a addaswyd yn enetig. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae’n rhaid sicrhau y gellir olrhain pob cynnyrch yn llawn, a labelu organebau a addaswyd yn enetig a chynnyrch sy’n deillio o organebau a addaswyd yn enetig. Mae’r Gymuned Ewropeaidd ar hyn o bryd yn mynnu bod unrhyw fwyd sy’n cynnwys cynnyrch a addaswyd yn enetig yn cael ei labelu’n glir.

### Hyrwyddo Bwydydd o Gymru sydd yn Rhydd o Organebau a Addaswyd yn Enetig

**C30 Peter Black:** Beth yw’r ffordd orau y gall y Gweinidog hyrwyddo bwydydd o Gymru sydd yn rhydd o organebau a addaswyd yn enetig, sydd yn cystadlu gyda mewnforion wedi’u llygru gan organebau a addaswyd yn enetig? (OAQ12049)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru pa bryd bynnag y bo hynny’n bosibl. Drwy weithredu strategaeth fwyd-amaeth y Cynulliad, mae Cyfarwyddiaeth Bwyd y WDA yn arwain y datblygiad economaidd o fewn y sector bwyd-amaeth, yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru ac yn rhoi’r cynlluniau gweithredu cig oen, eidion, llaeth ac organig ar waith.

Dim ond bwydydd neu gynhwysion a addaswyd yn enetig sydd wedi’u cymeradwyo yn unol â gofynion Rheoliad Bwydydd Newydd y Gymuned Ewropeaidd y gellir eu marchnata yn yr Undeb Ewropeaidd. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau y glynir yn gywir at y ddeddfwriaeth o safbwynt y DU. Ond mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymdrin ag unrhyw honiadau ynghylch presenoldeb cynhwysion a addaswyd yn enetig heb eu hawdurdodi, ac yn ymchwilio iddynt.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

### Technoleg Band Llydan yng Nghymru

**C1 Gareth Jones:** Pa fesurau a gyflwynwyd i sicrhau bod manteision technoleg band llydan yn cyrraedd pob cwr o Gymru? (OAQ12069) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar argaeledd cyfathrebu band llydan yng Nghymru? (OAQ12096)

**Y Trefnydd (Andrew Davies):** Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyr ymroddedig i ddod â manteision technoleg band llydan i Gymru gyfan. Yr ydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau pwysig er mwyn datblygu hyn. Mae’r rhain yn cynnwys cefnogi prosiectau megis llinyn 6 prosiect Llwybr/Pathway sy’n darparu technoleg llinell danysgrifio ddigidol anghymesur i 10 o drefi gwledig Cymru. Y llynedd, lansiais y prosiect MARAN—y rhwydwaith cefn gwlad aml-asiantaeth—sydd eto’n rhan o Llwybr/Pathway, sy’n darparu mynediad band llydan i rannau helaeth o ganolbarth Cymru. Hefyd, mae fy nghyd-aelodau Cabinet a minnau yn cyfarfod â chwmnïau megis British Telecom a NTL gan eu hannog i ddatblygu

gwasanaethau band llydan yng Nghymru. Mae hyn wedi helpu i ddarparu gwasanaethau cebl modem a llinell danysgrifio ddigidol anghymesur mewn rhai o ardaloedd gwledig Cymru.

Fodd bynnag, yr ydym yn sylweddoli y bydd rhai ardaloedd yn parhau heb wasanaeth a bydd Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a minnau yn ystyried yn ofalus argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ar y polisïau y mae angen eu gweithredu er mwyn datblygu band llydan ymhellach yng Nghymru.

Bydd sicrhau bod band llydan fforddiadwy ar gael hefyd yn nodwedd allweddol o fframwaith strategol oes wybodaeth y Cynulliad, y byddaf yn ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf.

*Tynnwyd cwestiynau 2 a 3 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 4 i 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

## Y Rhwydwaith TeleRanbarthau Ewropeaidd

**C9 Phil Williams:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar gynhadledd y Rhwydwaith TeleRanbarthau Ewropeaidd, y bu iddo ei mynychu yn Ebrill eleni? (OAQ12078)

**C13 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Trenfydd ddatganiad ynghylch ei swyddogaeth fel llywydd y Rhwydwaith TeleRanbarthau Ewropeaidd? (OAQ120818880)

**Andrew Davies:** Yn y seminar hon cyhoeddwyd ail-lansiad y Rhwydwaith TeleRanbarthau gydag arweinyddiaeth a rheolaeth wleidyddol newydd o dan fy llywyddiaeth i. Braf iawn i mi oedd gweld cynrychiolwyr o dros 30 o ranbarthau'r Undeb Ewropeaidd yn mynychu'r gynhadledd ail-lansio. Mae derbyn llywyddiaeth y Rhwydwaith TeleRanbarthau yn rhoi cyfle neilltuol i Gymru weithio gyda rhanbarthau partner ledled Ewrop i greu'r gymdeithas wybodaeth, darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arfer gorau a phrofiad yn ogystal â chydweithredu ar brosiectau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ariennir gan raglenni'r Comisiwn Ewropeaidd a fydd yn dwyn manteision i Gymru. Bwriad y Rhwydwaith TeleRanbarthau yw cryfhau ei gysylltiadau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, o wybod am bwysigrwydd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddatblygiad rhanbarthol. Fel y llywydd, bwriadaf i Gymru gymryd rhan flaenllaw yn y maes polisi Ewropeaidd hanfodol hwn.

## Cydlynu'r Strategaeth TGCh ar gyfer Cymru

**C10 Nick Bourne:** A wnaiff y Trefnydd amlinellu ei flaenoriaethau o ran cydlynu'r strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer Cymru? (OAQ12039)

**Andrew Davies:** Bydd fframwaith strategol yr oes wybodaeth i Gymru yn cael ei roi gerbron y Cynulliad ar 25 Mehefin, cyn ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf. Rhoddaf ddatganiad llawn ar fy mlaenoriaethau bryd hynny.

## Sefydlu a Chynnal Gwefannau Cymunedol yng Nghymru

**C12 Richard Edwards:** Yn ei rôl fel Gweinidog e-fasnach, pa drafodaethau y mae'r Trefnydd wedi'u cael gyda grwpiau cymunedol i sefydlu a chynnal gwefannau cymunedol yng Nghymru? (OAQ12019) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Mynediad y Cyhoedd i'r Rhyngrwyd

**C14 Richard Edwards:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar ba mor rhwydd yw hi i'r cyhoedd gael mynediad i'r rhyngrwyd, mewn adeiladau cyhoeddus megis llyfrgelloedd yng Nghymru? (OAQ12042) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Hyrwyddo TGCh ymhlith y Rhai sydd dros 60 oed

**C15 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Trefnydd i hyrwyddo technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ymhlith y rhai sydd dros 60 oed? (OAQ12110)

**Andrew Davies:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn datblygu strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn ei gyfarfod cyntaf ar 4 Mehefin, cytunodd grŵp llywio'r strategaeth fod technoleg gwybodaeth yn chwarae mwy a mwy o ran mewn cyfathrebu ymysg pobl hŷn ac y bydd angen ystyried y mater yng nghasgliadau'r strategaeth.

### Cynyddu Mynediad i'r Rhyngrwyd

**C16 Christine Gwyther:** Pa fesurau sydd wedi'u cyflwyno i gynyddu mynediad i'r rhyngrwyd ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru? (OAQ12018) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Busnesau yng Nghymru sydd yn Troi at y Rhynrwyd

**C17 Alun Cairns:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar faint o fusnesau yn y sector preifat yng Nghymru sydd yn troi at y rhyngrwyd? (OAQ12095)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn llwyr ymwybodol o'r angen i annog mwy o fusnesau i ddeall yn llwyr fanteision posibl y rhyngrwyd. Mae nifer o brosiectau a rhaglenni ar y gweill i helpu gyda hyn, er enghraifft, SMe-Fusnes Cymru, Cyfle Cymru a'r rhwydwaith Cyswllt Busnes o ganolfannau cefnogi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae'n amlwg fod y rhaglenni hyn yn gweithio, gan i astudiaeth feincnodi blynyddol yr Adran Masnach a Diwydiant ar gyfer 2000 ddangos cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n troi at y rhyngrwyd o gymharu â'r ffigurau ar gyfer 1999.

### Polisi TGCh (Hyrwyddo Cyfle Cyfartal)

**C18 Helen Mary Jones:** Sut y bydd polisi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y Llywodraeth yn hyrwyddo cyfle cyfartal? (OAQ12068) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygiadau Arloesol Mewn TGCh

**C19 Peter Black:** Pa ddatblygiadau arloesol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y mae'r Trefnydd yn rhagweld eu cyflwyno i Gymru cyn Mai 2003? (OAQ12040)

**Andrew Davies:** Yn y byd technolegol sy'n symud mor gyflym, annoeth fyddai dyfalu ynghylch pa ddatblygiadau a allai ddigwydd yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Yr hyn sy'n bwysig yw sut y cymhwysir y dechnoleg. Bydd fframwaith strategol oes wybodaeth Cymru, a fydd yn cael ei gosod gerbron ar 25 Mehefin, cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf, yn argymell y dylid gweithredu i gyflymu'r cysylltiadau cyfathrebu band llydan cyflymder uchel sydd ar gael yng Nghymru fel un maes blaenoriaeth. Byddai cynnydd yn y maes hwn yn hyrwyddo'r defnydd o amrediad o wasanaethau a thechnolegau nad ydynt ar gael yn gyffredinol ar hyn o bryd yng Nghymru. Meysydd eraill gyda photensial yn y dyfodol agos yw teledu digidol rhyngweithiol a'r dechnoleg ffonau symudol newydd.

### Cartrefi a Busnesau yng Nghymru sydd wedi'u Cysylltu â Rhwydwaith Data a Thelathrebu Cebl

**C20 William Graham:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad am nifer y cartrefi a busnesau yng Nghymru sydd wedi'u cysylltu â rhwydwaith data a thelathrebu cebl? (OAQ12097)

**Andrew Davies:** Mae gan British Telecom 1.1 miliwn o gwsmeriaid preswyl a 340,000 o gwsmeriaid busnes ledled Cymru. Mae NTL wedi adeiladu heibio i 9,900 o adeiladau busnes a 293,000 o adeiladau preswyl yn yr ardaloedd lle mae ganddynt y fasnachfraint.

### Sicrhau Mynediad at TGCh Newydd yng Nghymru

**C21 John Griffiths:** Pa gynnydd a wneir wrth sicrhau mynediad at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd ar gyfer pob cymuned yng Nghymru? (OAQ12094) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Cysylltiadau Band Llydan yng Nghymru

**C22 Phil Williams:** A wnaiff y Trefnydd ddatganiad ar gyfraniad y Cynulliad at wella cysylltiadau band llydan yng Nghymru? (OAQ12070) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Darpariaeth TGCh ar Gyfer Preswylwyr Pen-y-bont-fawr

**C23 Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Trefnydd i wella darpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gyfer preswylwyr Pen-y-bont-fawr? (OAQ12043)

**Andrew Davies:** Bydd cynlluniau'r Cynulliad gogyfer â sicrhau mwy o gyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i bawb yng Nghymru, ac ar gyfer eu defnyddio gan fwy o bobl, yn cael eu nodi yn ein fframwaith strategol oes wybodaeth ar gyfer Cymru a fydd yn cael ei roi gerbron y Cynulliad ar 25 Mehefin, cyn ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf. Byddaf yn rhoi datganiad llawn bryd hynny.

### Polisi TGCh (Hybu Datblygu Cynaliadwy)

**C24 Cynog Dafis:** Sut y bydd polisi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y Llywodraeth yn hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru? (OAQ12080) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Darpariaeth Mynediad Cyflym at y Rhyngrwyd yn y Gymru Wledig

**C25 David Davies:** Beth y mae'r Trefnydd yn ei wneud i wella darpariaeth mynediad cyflym at y rhyngrwyd yn y Gymru wledig? (OAQ12077)

**Andrew Davies:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyr ymroddedig i ddod â manteision technoleg band llydan i Gymru gyfan, ac yn arbennig i'r ardaloedd hynny lle y gallai'r manteision fod yn neilltuol, megis ardaloedd gwledig. Yr ydym wedi bod yn gysylltiedig ag amrediad o brosiectau er mwyn datblygu'r gwaith hwn, megis cefnogi prosiectau fel llinyn 6 prosiect Llwybr/Pathway, sy'n darparu technoleg llinell danysgrifio ddigidol anghymesur i 10 o drefi gwledig Cymru. Yr ydym hefyd wedi cefnogi prosiect MARAN—y rhwydwaith cefn gwlad aml-asiantaeth—sydd eto'n rhan o Llwybr/Pathway, sy'n darparu mynediad band llydan i rannau helaeth o ganolbarth Cymru.

Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yn sylweddoli y bydd angen iddo ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach ac anelu at sicrhau bod band llydan ar gael mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd. Bydd Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a minnau yn ystyried yn ofalus argymhellion yr adroddiad a gomisiynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru ar y polisïau y mae angen eu gweithredu er mwyn datblygu band llydan ymhellach yng Nghymru.

Bydd sicrhau bod band llydan ar gael hefyd yn nodwedd allweddol o fframwaith strategol oes wybodaeth y Cynulliad, a drafodir ym mis Gorffennaf.